SESIWN 4: BETH YW CADWYNI CYFLENWI BYD-EANG?

Ystod oedran: 7-11 oed

<table>
<tr><td colspan="2">Amlinelliad
Bydd dysgwyr yn dysgu beth yw cadwyn gyflenwi fyd-eang a sut y gall y gwahanol gamau a'r bobl sy'n rhan ohoni effeithio ar y rhai sydd ar y naill ochr neu'r llall o'r gadwyn. Byddant yn archwilio astudiaeth achos o gynhyrchu mefus ym Moroco er mwyn deall sut y mae cadwyni cyflenwi yn effeithio ar weithwyr mefus, sy'n ferched yn bennaf, ac yn ystyried pa gamau allai gael eu cymryd er mwyn creu cadwyn gyflenwi sy'n fwy teg.</td></tr>
<tr><td>Amcanion dysgu
Deall beth yw cadwyn gyflenwi fyd-eang a'i bod yn cynnwys cyfres o gamau cysylltiedig sy'n cynnwys gwahanol bobl, cwmnïau a sefydliadau.
Cydnabod rhai o nodweddion anghyfiawnder bwyd ac uniaethu â'r bobl y mae cadwyni cyflenwi annheg yn effeithio arnynt.
Datblygu sgiliau cydweithio a thrafod.</td><td>Deilliannau dysgu
Bydd dysgwyr yn deall cysyniad cadwyn gyflenwi.
Bydd dysgwyr yn pennu cysylltiadau o fewn y gadwyn cyflenwi mefus.
Bydd dysgwyr yn creu fersiwn bapur o'r gadwyn gyflenwi ac yn egluro'r cysylltiadau rhwng y gwahanol bobl sy'n rhan ohoni.</td></tr>
<tr><td>Cwestiynau allweddol
Beth yw cadwyn gyflenwi fyd-eang?
Sut y mae cadwyni cyflenwi byd-eang yn effeithio ar bobl a chymunedau?
Beth yw swyddogaeth y defnyddiwr o fewn y gadwyn gyflenwi?</td><td>Adnoddau
Sioe sleidiau B (Sesiynau 4–6): Sleidiau 2-6
Taflen gweithgaredd 1: Cadwyn cyflenwi mefus
Taflen Adnoddau 1: Creu cadwyn gyflenwi o bapur</td></tr>
</table>

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd 4.1 (30 mun)

Creu cadwyn cyflenwi mefus

- Nod y gweithgaredd hwn yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o beth yw cadwyn gyflenwi a sut mae'n gweithio.
- Defnyddiwch sleidiau 2 i 3 o Sioe Sleidiau B i esbonio mai cadwyn cyflenwi bwyd yw'r gadwyn o gamau y mae rhywbeth yn mynd drwyddynt o gnwd (neu ddeunydd crai) sy'n cael ei dyfu (fel mefus) i gynnyrch gorffenedig mewn siop (fel jar o jam mefus). Ar bob cam, caiff y cynnyrch ei brynu a'i werthu rhwng gwahanol bobl yn y gadwyn gyflenwi. Mae rhai cynhyrchion yn mynd drwy brosesau gwahanol i'w gwneud yn gynnyrch gorffenedig. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am enghreifftiau eraill o gynhyrchion bwyd sy'n symud ar hyd cadwyn gyflenwi.
- Argraffwch a thorrwch gopïau o *Gadwyn cyflenwi Mefus* (Taflen Gweithgaredd 1) a dosbarthwch gopïau o'r wyth cerdyn chwarae rôl o amgylch y dosbarth. Dylai pob dysgwr gael cerdyn a bod yn rhan o grŵp o wyth (nad yw'n amlwg iddynt ar hyn o bryd). Os oes angen, gellir defnyddio grwpiau llai o chwech neu saith drwy gael gwared ar un, neu'r ddau, o'r ddau gerdyn chwarae rôl derfynol (y Fenter Masnachu Moesegol a'r Grŵp Mefus Gwell). Gallai dysgwyr ysgrifennu eu rôl ar label gludiog neu nodyn gludiog a'i wisgo fel y gall dysgwyr eraill "ddod o hyd" i'r dilyniant nesaf yn eu cadwyn yn haws.
- Eglurwch fod pob dysgwr bellach yn cynrychioli dolen yn y gadwyn cyflenwi mefus. Dywedwch wrth y dysgwyr fod wyth dolen yn y gadwyn hon. Mae angen iddynt symud o amgylch yr ystafell a dod o hyd i rywun sy'n cynrychioli'r ddolen yn y gadwyn cyn neu ar eu hôl, mewn geiriau eraill y person y gallant brynu neu werthu mefus iddynt neu ganddynt. Ni allant ond ddod o hyd i un person o bob cam. Fel hyn, dylai dysgwyr ddod at ei gilydd mewn grwpiau o wyth (neu chwech neu saith) i greu un gadwyn gyflawn.
- Gellid rhoi'r cerdyn mefus i ddysgwyr sy'n cynrychioli'r gweithiwr pigo mefus (gweler Taflen Gweithgaredd 1). Wrth iddynt ddod at ei gilydd yn eu grwpiau, gallai dysgwyr basio'r mefus yma ar hyd eu cadwyn gyflenwi ddynol fel enghraifft weledol o wahanol gamau'r gadwyn.
- Pan fydd dysgwyr wedi gwneud eu cadwyni cyflenwi dynol gallent ddefnyddio eu cardiau neu labeli i ddilyniannu'r gadwyn gyflenwi ar ddesg neu wal. Dangosir trefn gywir y gadwyn gyflenwi ar sleid 4.
- Defnyddiwch y cwestiynau ar sleid 5 i ysgogi trafodaeth am y gadwyn gyflenwi mewn grwpiau dysgwyr a/neu fel dosbarth cyfan.
    - *Pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn cael ei alw'n 'gadwyn gyflenwi'?*
    - *Yn eich barn chi, pwy sy'n ennill yr arian mwyaf/lleiaf yn y gadwyn gyflenwi hon? Beth yw'r rheswm am hyn?*
    - *Ydych chi'n meddwl bod y gadwyn gyflenwi hon yn deg? Pam/Pam ddim?*
    - *Sut y gellid gwneud y gadwyn gyflenwi hon yn decach?*
- Nawr gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am eu rôl eu hunain mewn cadwyn gyflenwi
    - *A oes gennych rôl bersonol yn y gadwyn gyflenwi hon?*
    - *A oes gennych unrhyw ddylanwad neu reolaeth dros y gadwyn gyflenwi hon?*
    - *Pa gadwyni cyflenwi eraill ydych chi'n rhan ohonynt?*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gwahaniaethu

- Gwneud pethau'n haws: Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o wyth yn gyntaf cyn dosbarthu'r cardiau chwarae rôl. Yna dylai dysgwyr drefnu eu hunain yn eu grwpiau i ddangos trefn gywir y gadwyn gyflenwi mefus.

Gweithgaredd 4.2 (20 mun)

Creu cysylltiadau ar hyd y gadwyn gyflenwi

- Yn y gweithgaredd hwn, bydd dysgwyr yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i greu cadwyn bapur sy'n cynrychioli cadwyn gyflenwi mefus a'r materion sy'n gysylltiedig â hi.
- Trefnwch y dysgwyr yn y neuadd o dri neu bedwar. Rhowch gopi i bob grŵp o'r templed a ddarperir yn Gwneud cadwyn gyflenwi o bapur (Taflen Weithgaredd 2). Eglurwch fod angen i ddysgwyr weithio yn eu grwpiau i greu cadwyn bapur i gynrychioli'r gadwyn gyflenwi mefus. Dylent ddefnyddio eu dysgu a'u dealltwriaeth o Weithgaredd 4.1 i ychwanegu ffeithiau, syniadau a materion sy'n ymwneud â phrofiadau pobl ar hyd y gadwyn gyflenwi ar gyfer pob dolen. Gallai hyn fod drwy eiriau a lluniau.
- Gallai dysgwyr hefyd ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir yn *Cadwyn cyflenwi Mefus* (Taflen Gweithgaredd 1) i ychwanegu at eu cadwyn. Anogwch y dysgwyr i ychwanegu eu meddyliau a'u teimladau eu hunain am y gadwyn gyflenwi. Gallent hefyd ychwanegu eu hunain fel defnyddwyr yn y gadwyn gyflenwi hon.
- Rhannwch yr enghreifftiau ar sleid 6 fel syniadau.
- Er enghraifft:
    - *Mae gweithwyr pigo mefus ar ddechrau'r gadwyn gyflenwi.*
    - *Maent yn ennill cyflogau isel ac mae'n rhaid iddynt weithio o dan amodau anodd.*
    - *Mae gweithwyr pigo mefus yn gweithio i ffermwyr lleol (a elwir yn gynhyrchwyr).*
- Efallai y byddai'n ddefnyddiol cwblhau enghraifft o ddolen gyflawn yn y gadwyn fel gweithgaredd dosbarth cyfan cyn i ddysgwyr greu eu cadwyni eu hunain.
- Cofiwch ganiatáu amser ar ddiwedd y gweithgaredd i ddysgwyr rannu eu cadwyni gyda grwpiau eraill. Yna gellid arddangos cadwyni dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth neu rywle arall yn yr ysgol, gan ddarparu ffordd ddefnyddiol o asesu a lledaenu eu dysgu ymhellach.

Syniadau pellach

- Gweler adnodd *Go Bananas* Oxfam i ddysgu am wahanol gamau'r gadwyn cyflenwi bananas. Mae'r adnodd yma'n cynnwys ffeithiau, ffotograffau a straeon newydd ac yn cefnogi dysgwyr i ymgyfarwyddo â Masnach Deg ac i feddwl yn feirniadol am rai o'r heriau y mae ffermwyr bananas yn eu hwynebu
    - www.oxfam.org.uk/education/resources/go-bananas

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

Cadwyn cyflenwi mefus

Taflen gweithgaredd 1a

Ble yr ydych CHI yn y gadwyn gyflenwi? **Eich Rôl:** **Gweithiwr Pigo Mefus** Rydych yn byw ym Moroco ac yn ennill 46 Dirham (tua £3.70) y dydd am bigo mefus. Rydych yn un o filoedd o fenywod sy'n cael eu cyflogi ym Moroco er mwyn pigo mefus. Rydych yn gweithio dyddiau hir yn yr haul poeth, ac mae'n waith caled. Rydych ar ddechrau'r gadwyn gyflenwi. • Ble mae'ch rheolwr?	**Ble yr ydych CHI yn y gadwyn gyflenwi?** **Eich Rôl:** **Perchennog Planhigfa Fefus (ffermwr/cynhyrchydd)** Rydych yn berchen ar fferm fawr sy'n tyfu mefus. Moroco yw un o allforwyr mwyaf y byd o fefus. Rydych yn allforio eich mefus drwy eu gwerthu i gwmni sy'n eu cludo i Ewrop. • Allwch chi ddod o hyd i un o'ch gweithwyr? • Allwch chi ddod o hyd i'r allforiwr y gallwch werthu eich mefus iddo?
Ble yr ydych CHI yn y gadwyn gyflenwi? **Eich Rôl:** **Allforiwr** Rydych yn prynu mefus gan berchenogion planhigfeydd (ffermwyr/cynhyrchwyr) ym Moroco ac yn eu cludo i Ewrop. Rydych yn gwneud hyn gydol y flwyddyn fel y gall yr archfarchnadoedd eu gwerthu i brynwyr gydol y flwyddyn. • Allwch chi ddod o hyd i berchennog planhigfa i brynu mefus ganddo? • Allwch chi ddod o hyd i fewnforiwr o fewn y DU y gallwch werthu'r mefus iddo?	**Ble yr ydych CHI yn y gadwyn gyflenwi?** **Eich Rôl:** **Mewnforiwr o fewn y DU** Rydych yn prynu mefus oddi wrth yr allforiwr. Rydych yn eu cadw'n ffres, yn eu pecynnu'n gywir ac yn eu gwerthu i archfarchnadoedd yn y DU. • Allwch chi ddod o hyd i allforiwr sy'n fodlon gwerthu i chi? • Allwch chi ddod o hyd i archfarchnad i werthu iddi?

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cadwyn cyflenwi mefus

Taflen gweithgaredd 1b

Ble yr ydych CHI yn y gadwyn gyflenwi?

Eich Rôl:

Archfarchnad

Mae archfarchnadoedd yn y DU yn gwerthu gwerth £564 miliwn o fefus yn y DU bob blwyddyn.[1]

Gall perchenogion archfarchnadoedd ennill mwy na £3 miliwn y flwyddyn.

- Allwch chi ddod o hyd i'r mewnforiwr y gallwch brynu eich mefus ganddo?
- I bwy y byddwch yn gwerthu'r mefus? Allwch chi ddod o hyd iddynt?

Ble yr ydych CHI yn y gadwyn gyflenwi?

Eich Rôl:

Defnyddiwr

Rydych ar ddiwedd y gadwyn gyflenwi. Rydych yn prynu'r mefus i'w bwyta am tua £2 y pecyn.

Ar gyfartaledd mae pob person yn y DU yn bwyta 3kg o fefus bob blwyddyn![2]

- Allwch chi ddod o hyd i'r archfarchnad ble gallwch brynu eich mefus?

Ble yr ydych CHI yn y gadwyn gyflenwi?

Eich Rôl:

Y Fenter Masnachu Moesegol

Mae'r sefydliad hwn yn cydweithio ag Oxfam er mwyn gwella amodau gwaith ar gyfer y gweithwyr pigo mefus. Weithiau caiff y gweithwyr hyn eu trin yn annheg gan berchenogion y planhigfeydd.

Eich gwaith chi yw sicrhau bod y gweithwyr pigo mefus yn cael eu trin yn deg fel eu bod yn ennill cyflog uwch a'u bod yn gallu teimlo'n ddiogel. Rydych yn helpu i addysgu menywod am eu hawliau cyflogaeth ac yn sicrhau bod gan weithwyr pigo mefus gerdyn nawdd cymdeithasol fel y gallant dderbyn cymorth gan y llywodraeth.

- Allwch chi ddod o hyd i weithiwr pigo mefus i'w gynorthwyo?
- Allwch chi ddod o hyd i berchennog planhigfa i gydweithio ag ef?

Ble yr ydych CHI yn y gadwyn gyflenwi?

Eich Rôl:

Y Grŵp Gwell Mefus

Dyma gwmni cydweithredol ym Moroco sy'n cydweithio ag archfarchnadoedd yn y DU er mwyn ceisio sicrhau bod y gadwyn gyflenwi yn fwy teg.

Eich gwaith chi yw sicrhau bod archfarchnadoedd yn talu pris teg am eu mefus fel bod pob person o fewn y gadwyn gyflenwi yn derbyn cyflog teg. Rydych hefyd yn cydweithio ag archfarchnadoedd er mwyn eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd ar hyd y gadwyn gyflenwi.

- Allwch chi ddod o hyd i archfarchnad y gallwch gydweithio â hi?

[1] www.freshplaza.com/article/159848/OVERVIEW-GLOBAL-STRAWBERRY-MARKET
[2] www.hortibiz.com/item/news/eu-increase-in-strawberry-consumption/

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cadwyn cyflenwi mefus **Taflen gweithgaredd 1c**

Y Cerdyn Mefus



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Creu cadwyn gyflenwi o bapur

Taflen adnodd 1

Defnyddiwch yr amlinelliad isod i greu fersiwn bapur o gadwyn cyflenwi mefus. Nodwch sylwadau ar bob dolen yn y gadwyn er mwyn egluro'r swyddogaeth o fewn y gadwyn. Gallai hyn gynnwys sut a pham y maent yn gyswllt pwysig o fewn y gadwyn neu fater cyfiawnder bwyd sy'n ystyriaeth bwysig o fewn y gadwyn gyflenwi hon.

Gweithiwr pigo mefus
Perchennog planhigfa fefus
Cwmni allforio
Cwmni mewnforio
Archfarchnad
Defnyddiwr

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.